



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Bwletin GwE

Cwricwlwm i Gymru 2022

Y Gweinidog Addysg yn Cyhoeddi Cwricwlwm Drafft Newydd i Gymru

Gweler [yma](#) llythyr pwysig gan Kirsty Williams ynglŷn â lansiad y cwricwlwm drafft i Gymru. Gofynnwn i chi ei rannu â'ch staff a'ch llywodraethwyr trwy eich sianeli cyfathrebu arferol.

Sesiynau Ymgysylltu i Benaethiaid ★NEWYDD★

Hyderir eich bod wedi derbyn llythyr gan y Gweinidog a anfonwyd atoch yn eich hysbysu bod Cwricwlwm 2022 ar gael ar Hwb. Ymhellach i'r dyddiadau i'r dyddiadur a rannwyd ar ddiwedd y tymor diwethaf, gweler [yma](#) wybodaeth bellach ynghylch y sesiynau codi ymwybyddiaeth o Cwricwlwm i Gymru 2022 y'ch gwahoddir chi fel Penaethiaid iddynt.

Gweithdai Maes Dysgu a Phrofiad ★NEWYDD★

Ar ran Llywodraeth Cymru, rydym yn cynnal sesiynau i ysgolion y rhanbarth ar bob Maes Dysgu a Phrofiad ym mis Mehefin. Er mwyn rhoi digonedd o gyfleoedd i ysgolion i dderbyn gwybodaeth am bob MDaPh rydym yn cynnal 3 sesiwn yn ystod y dydd a bydd pob sesiwn yn parhau am 2 awr, (9-11am, 1pm-3pm a 4pm-5.30yp) ar draws nifer o leoliadau yn rhanbarthol yn ystod Mehefin. Mae'r gweithdai hyn yn benodol ar gyfer aelodau staff sy'n gyfrifol am gyflunio'r meysydd hyn. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru.

Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnal ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [\[https://g6.gwegogled.cymru\]](https://g6.gwegogled.cymru).

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD	CYFRWNG
Gweithdy Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol [Glasdir – Dwyieithog]	08/05/2019	Glasdir, Llanrwst	Dwyieithog
Rhaglen Athrawon Rhagorol – OTP (Outstanding Teacher Programme) – OLEVI	08/05/2019	Ysgol y Creuddyn, Bae Penrhyn	Dwyieithog
Sesiynau Marcio gyda Chefnogaeth – Ymresymu Rhifyddol WNT [Bangor – Sesiwn 1:15yp]	14/05/2019	Tŷ Menai, Parc Menai, Bangor	Cymraeg
Sesiynau Marcio gyda Chefnogaeth – Ymresymu Rhifyddol WNT [Bangor – Sesiwn 4:00yp]	14/05/2019	Tŷ Menai, Parc Menai, Bangor	Cymraeg
Sesiynau Marcio gyda Chefnogaeth – Ymresymu Rhifyddol WNT [Yr Wyddgrug – Sesiwn 9:00yb]	15/05/2019	Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
Cracking the Code – Teaching Programming with Block Based Coding [Bilingual - Caernarfon]	15/05/2019	Penrallt, Caernarfon	Dwyieithog
Modelu Effeithiol gan ddefnyddio Taenlenni [Cymraeg - Plas Menai]	15/05/2019	Plas Menai, Caernarfon	Cymraeg
Sesiynau Marcio gyda Chefnogaeth – Ymresymu Rhifyddol WNT [Yr Wyddgrug – Sesiwn 1:15yp]	15/05/2019	Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
Sesiynau Marcio gyda Chefnogaeth – Ymresymu Rhifyddol WNT [Yr Wyddgrug – Sesiwn 4:00yp]	15/05/2019	Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
Sesiynau Marcio gyda Chefnogaeth – Ymresymu Rhifyddol WNT [Meirionydd – Sesiwn 4:00yp]	15/05/2019	I'w gadarnhau	Cymraeg
Cracio'r Cod – Addysgu Rhaglennu gyda Chodio yn seiliedig ar Flociau [Saesneg – Yr Wyddgrug]	16/05/2019	Linden House, Yr Wyddgrug	Saesneg
Sesiynau Marcio gyda Chefnogaeth – Ymresymu Rhifyddol WNT [Bae Colwyn – Sesiwn 9:00yb]	16/05/2019	Bryn Eirias, Bae Colwyn	Dwyieithog
Sesiynau Marcio gyda Chefnogaeth – Ymresymu Rhifyddol WNT [Bae Colwyn – Sesiwn 1:15yp]	16/05/2019	Bryn Eirias, Bae Colwyn	Dwyieithog
Sesiynau Marcio gyda Chefnogaeth – Ymresymu Rhifyddol WNT [Bae Colwyn – Sesiwn 4:00yp]	16/05/2019	Bryn Eirias, Bae Colwyn	Dwyieithog
Google – Camau Cyntaf gyda G-Suite [Cymraeg – Plas Menai]	17/05/2019	Plas Menai, Caernarfon	Cymraeg

Google – Camau Cyntaf gyda G-Suite [Saesneg – Swyddfeydd Cyngor Conwy]	20/05/2019	Swyddfa Conwy Conwy, Coed Pella	Saesneg
Gweithdy rhannu gwybodaeth – GDD Rhanbarthol i Blant mewn Gofal 2019-20 [Wrecsam]	23/05/2019	Ysgol Gynradd Gwenfro, Wrecsam	Dwyieithog

Hyfforddiant ANG Uwchradd ★NEWYDD★

Nodwch fod dyddiad yr hyfforddiant ANG uwchradd [Addysgu Myfyriol; dysgu effeithiol] [diwrnod 3U ar G6] ym Mhlas Menai wedi'i newid o'r 19/06/2019 i **Ddydd Gwener, 21 Mehefin 2019**.

Rhaglenni Proffesiynol

Sesiynau Gwybodaeth CALU ★NEWYDD★

Cynhelir sesiynau gwybodaeth am y Cynllun CALU ar gyfer Cymorthyddion Dysgu a'u Penaethiaid / Rheolwyr ym mis Mehefin. Mae croeso i chi fynychu unrhyw un o'r sesiynau a restrir ar ein [gwefan](#).
Cysylltwch a calu@gwegogledd.cymru neu 01286 679976 am ragor o wybodaeth.

Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth [CPCP] 2019-20

Cynhelir sesiynau briffio ar gyfer darpar ymgeiswyr CPCP am 4:00yp ar 13/05/2019 ym Mhlas Menai ac am 4:00yp yn yr Holiday Inn A55. Os nad yw dyddiadau sesiynau GwE yn gyfleus, mae gennych fynediad i sesiynau briffio'r 3 consortiwm arall ar draws Cymru, fel y nodir [yma](#). Awgrymir yn gryf bod eich Pennaeth yn mynychu gyda chi.

Sesiynau Marcio Cefnogol Cynradd – Ymresymu Rhifyddol

Bydd GwE yn cynnig cefnogaeth i ysgolion cynradd eto eleni ar farcio'r prawf Rhifedd [Ymresymu]. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu harwain gan dîm Rhifedd GwE, sydd wedi cael hyfforddiant ychwanegol ar hyn gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg [NFER].
[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Gweithdy Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol

DYDD MERCHER, 8 MAI 2019 – GLASDIR, LLANRWST
Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).
COFRESTRWCH DRWY G6.

Cyfarfodydd Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen [Mai 2019] ★NEWYDD★

[AR GYFER ARWEINWYR, ATHRAWON A CHYMORTHYDDION Y CYFNOD SYLFAEN]

Yn ystod y cyfarfodydd trafodir materion a datblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol parthed y cyfnod sylfaen yn ogystal â rhannu astudiaeth achos 'arfer dda'.

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

NID OES ANGEN COFRESTRU AR GYFER Y CYFARFODYDD HYN. GALL STAFF FYNICHU UNRHYW LEOLIAD.

Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn falch iawn o gyhoeddi pwy yw'r bobl arbennig sydd wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Addysgu Cymru 2019.

Gweler isod restr o'r categorïau a'r rhai sy'n deilwng o ranbarth GwE:

Cefnogi Athrawon a Dysgwyr:	Shaun Pearson - Ysgol John Bright, Llandudno
Defnyddio'r Gymraeg mewn Ffordd sy'n Ysbrydoli:	Nia Williams - Ysgol Alun, Yr Wyddgrug
Hybu Cydweithio i Wella Cyfleoedd Dysgu:	Richard Watkins - GwE
Pennaeth y Flwyddyn:	Tracy Jones – Ysgol Merllyn, Bagillt
Athro Newydd Eithriadol:	Gruff Arfon – Ysgol Tryfan, Bangor
Rheolwr Busnes Ysgol/Bwsar:	Gillian Stevenson – Ysgol Uwchradd Elfed, Bwcle Gwyn Jones – Ysgol Eirias, Bae Colwyn
Athro/Athrawes y Flwyddyn:	Cheryl Roberts – Ysgol Tryfan, Bangor



Caiff enillwyr y gwobrau eu cyhoeddi mewn seremoni wobrwyo ddydd Sul 19 Mai yn Neuadd Soughton, ger yr Wyddgrug yn Sir y Fflint.

Dymuniadau gorau a phob hwyl i chi gyd yn y seremoni wobrwyo.

Grant Datblygu Disgyblion a Phlant Mewn Gofal

Ceisiadau GDD – Plant Mewn Gofal

Yn dilyn cyfres o weithdai rhannu gwybodaeth am GDD Plant Mewn Gofal 2019/20 ar draws y rhanbarth, gweler linc ar gyfer gwneud ceisiadau a derbyn gwybodaeth bellach am y broses isod. Cofiwch mai'r dyddiad cau cychwynnol yw **Dydd Gwener, 24 Mai 2019**. Pob cais ac ymholiad i'w anfon at CeisiadauGDD@gwegogledd.cymru

[Ffurflen Gais Grant Datblygu Disgyblion 2019-20](#)

[Canllawiau'r grant PMG – GwE 2019-20](#)

[Mesur Effaith ac Arfarnu – GwE 2019-20](#)

Adnodd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer Cymru

Dilynwch y [ddolen hon](#) am wybodaeth i sefydliadau addysg am adnoddau/gwybodaeth defnyddiol ar gyfer cefnogi Plant Mewn Gofal.

Dyddiad i'ch Dyddiadur ★NEWYDD★

Gweithdy ADY efo Mike Gershon i gydlynwyr ADY. Mae cyfle i chi fynychu un o'r tri sesiwn isod:

25/06/19	Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug
26/06/19	Canolfan yr OpTIC, Llanelwy
27/06/19	Glasdir, Llanrwst

Mwy o wybodaeth a manylion cofrestru i ddilyn.

Y Gymraeg mewn Addysg

Cwrs Sabothol Cymraeg [Lefel Uwch]

Cwrs ar gyfer cynorthwyr dosbarth ysgolion cynradd sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl [dysgwyr neu Gymry Cymraeg] ac sydd eisiau datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth am yr iaith. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Clipiau Fideo Cynhadledd y Gymraeg mewn Addysg a Dwyieithrwydd

I gyd-fynd â'r llyfr [Dulliau Addysgu Dwyieithog](#) lansiwyd yn y gynhadledd fis Tachwedd diwethaf, [cliciwch yma](#) ar gyfer darganfod clipiau fideo o'r gynhadledd.

Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

Gweler isod fanylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich ysgol. Sylwch nad yw GwE o reidrwydd yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod. Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:

Cofiwch y dyddiad - Meithrin Lles a Gwytnwch Myfyrwyr ★NEWYDD★

Meithrin lles a gwytnwch myfyrwyr. Sesiynau datblygiad parhaus ar gyfer Penaeithiad 6ed Dosbarth a staff sydd â swyddi bugeiliol, 2 Gorffennaf 2019, 8:30yb – 12:30yp. Rhagor o fanylion i ddilyn yn fuan.

Cynhadledd Athrawon a Darlithwyr Mathemateg Cyfrwng Cymraeg ★NEWYDD★

11 GORFFENNAF 2019 – CANOLFAN MEDRUS, PRIFYSGOL ABERYSTWYTH.

Rhagor o fanylion i'w gael [yma](#).

Cyfle i'r Awdres a'r Storiwraig Berfformio Ardderchog Mara Menzies Ymweld â'ch Hysgol! ★NEWYDD★

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Iechyd Emosiynol a Llesiant ar gyfer Dysgu AC/NEU Amser Cinio ac Egwyl

Cadarnhaol a Ffreteur Digynnwrf

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion am y ddau ddigwyddiad a gynhelir gan Black Lane School [hysbyseb Saesneg yn unig].

Dewch i Ddathlu! Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

Mae Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn rhaglen a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Yr wythnos diwethaf, daethom ynghyd mewn lleoliadau ar draws Bae Caerdydd i ddathlu cyflawniadau ein hysgolion ar draws dwy elfen y rhaglen dros y pedair blynedd diwethaf.

Rydym yn gobeithio trefnu digwyddiad undydd yng Ngogledd Cymru yn ystod tymor yr haf. Rhennir gwybodaeth bellach yn ystod yr wythnosau nesaf.

[Cliciwch yma](#) i ddarllen mwy.

Sioeau Teithiol Rhanbarthol gan Gymdeithion yr Academi Arweinyddiaeth


Fe'ch gwahoddir i ddod i un o'r sioeau teithiol a gynhelir ledled Cymru yn ystod mis Mai lle byddwn ni'n edrych yn fanylach ar sut y gallwn ni gyflawni'r argymhellion yn 'Ein Galwad i Weithredu' er mwyn cyflawni deilliannau gwell i bawb.

Cynhelir y sioeau teithiol ar draws y 4 rhanbarth, ac fe'ch gwahoddir i ddod i unrhyw un ohonynt trwy gofrestru ar ein [gwefan](#).

Ysgoloriaeth Ymchwil PhD

LLESIANT DISGYBLION AC ATHRAWON YN YSGOLION GOGLEDD Cymru

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion parthed y cyfle hwn. [Hysbyseb Saesneg yn unig].



Digwyddiadau gan Techniquest: ★NEWYDD★

Arweinyddiaeth Effeithiol mewn Gwyddoniaeth
17 A 18 MEHEFIN 2019 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO
Cliciwch yma am ragor o fanylion.

O'r Cwmwl i'r Tegell
6 MEHEFIN 2019 – CANOLFAN DŴR GWYN CENEDLAETHOL
Cliciwch yma am ragor o fanylion.



Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

Newyddlen Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru

Dilynwch y **ddolen hon** i'r rhifyn cyntaf o newyddlen yr Academi Arweinyddiaeth. Cofrestrwch **yma** i dderbyn eu rhifynnau yn y dyfodol.

Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ac Aseidiadau Personol 2018-2019

Cliciwch yma am gopi o'r canllaw cyflym i ysgolion.

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n **gwefan**

Rydym wedi diweddarau ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi **yma**
Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanygrifio drwy gysylltu â **bwletin@gwegogledd.cymru** yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

